



wildaboutgardens.org.uk

Gwyfynod hudolus

Yn y nos neu yn y dydd, helpwch
wyfynod i hedfan yn rhydd!



The
Wildlife
Trusts



RHS

Gwyfyn neu löyn byw?

Gwyfynod ydi ffrindiau anweledig ein gerddi ni. Gyda thua 2,500 o rywogaethau yn y DU, maen nhw yr un mor hanfodol i'n hecosystemau ni â glöynnod byw – ond yn aml does neb yn sylwi arnyn nhw. Tra mae glöynnod byw yn denu ein sylw ni yng ngolau dydd, mae'r rhan fwyaf o wyfynod yn cwblhau'r shift nos yn dawel bach ac o'r golwg.

Mae gwyfynod a glöynnod byw yn rhan o'r un drefn dactsonmig, Lepidoptera (sy'n golygu adenydd cennog). Y ddwy brif nodwedd sy'n cael eu defnyddio i ddweud y gwahaniaeth rhyngddyn nhw ydi siâp yr antenâu a'r ffordd maen nhw'n dal eu hadenydd wrth orffwys. Mae gwyfynod yn tueddu i orffwys gyda'u hadenydd yn fflat neu fymryn fel pabell, tra mae glöynnod byw yn eu dal nhw'n dalsyth ac ar gau uwchben eu corff. Mae gan wyfynod hefyd antenâu edafeddog neu bluog, yn hytrach na blaenau clybiog fel sydd gan löynnod byw. Mae gan lawer o wyfynod gyrff cryfach a mwy blewog na glöynnod byw hefyd.

Ond cyffredinol ydi'r gwahaniaethau yma, gyda llawer o eithriadau i'r rheol. Mae gwyfynod a glöynnod byw yn perthyn mor agos at ei gilydd fel bod llawer o naturiaethwyr yn cael anhawster gweld unrhyw wahaniaethau pendant rhyngddyn nhw. Yn Ffrangeg, mae gwyfynod yn cael eu hadnabod yn syml fel papillons de nuit – glöynnod byw y nos. Felly efallai ei bod hi'n amser i ni feddwl am wyfynod a glöynnod byw fel creaduriaid sydd â llawer mwy o bethau'n eu huno nhw na sy'n eu rhannu.



Gwyfyn cennog



Glöyn byw Gweirlöyn y ddôl



Ermin gwyn © Vaughn Matthews
Llun y clawr: Gwalch-wyfyn helyglys © Tom Marshall

Chwalu mythau am wyfynod

Mae rhai camsyniadau cyffredin, ac annheg yn aml, am wyfynod. Mae'n amser cywiro hyn!

Mae gwyfynod yn ddiflas ac yn frown, mae glöynnod byw yn lliwgar

MYTH

Mae gwyfynod i'w cael mewn amrywiaeth enfawr o siapiau, arlliwiau a phatrymau. Mae llawer o wyfynod lliwgar, o wyfynod teigr llachar i'r emrallt gwyrdd hardd a'r melyn y drain llachar. Dydi hyd yn oed y gwyfynod llai lliwgar ddim yn ddiflas. Yn aml mae ganddyn nhw farciau cymhleth hardd, neu guddliw anhygoel. Mae digonedd o löynnod byw llwyd hefyd.



Meistr y rhamusydd © Amy Lewis

Mae pob gwyfyn yn bwyta dillad

MYTH

O'r miloedd o rywogaethau yn y DU, dim ond llond llaw o wyfynod bach sydd â lindys sy'n bwydo ar ffibrau naturiol sy'n cael eu defnyddio mewn dillad, fel gwlân. Y ddau sy'n achosi problemau fel rheol yw'r gwyfyn dillad gweiniog a'r gwyfyn dillad cyffredin. Gall glanhau rheolaidd a storio gofalus leihau'r risg o broblemau.

Dim ond yn ystod y nos mae gwyfynod yn dod allan

MYTH

Mae'n well gan y rhan fwyaf o wyfynod hedfan yn ystod y nos, ond yn y DU mae mwy na 150 o rywogaethau o wyfynod sy'n hedfan yn ystod y dydd. Mae hynny'n fwy na dwywaith nifer y glöynnod byw y gallwch chi eu gweld yma!



Emrallt mawr © Vaughn Matthews



Teigr di-adau goch © Frank Porch

Pwysigrwydd gwyfynod

Mae gwyfynod yn chwarae rhan dawel ond pwerus yn y byd naturiol. Fel peillwyr, maen nhw'n helpu planhigion i atgennedlu – yn enwedig y rhai sy'n blodeuo gyda'r nos neu yn ystod y nos.

Mae eu tafodau hir yn caniatáu iddyn nhw gyrraedd yn ddwfn i mewn i flodau fel gwyddfid a melyn yr hwyr, gan drosglwyddo paill wrth iddyn nhw fwydo. Mae tystiolaeth hyd yn oed bod gwyfynod yn beillwyr mwy effeithlon na gwenyn a phryfed eraill sy'n hedfan yn ystod y dydd!

Maen nhw hefyd yn rhan hanfodol o'r gadwyn fwyd. Mae gwyfynod sy'n oedolion yn darparu bwyd i adar, ystlumod ac amffibiaid, ac mae eu lindys yn ffynhonnell gyfoethog o faeth i ddraenogod, adar, chwilod, gwenyn meirch a llawer o bryfed eraill. Mae nifer syfrdanol o wenynd meirch parasitoid yn dibynnu ar lindys i atgennedlu, gyda rhai'n dibynnu ar un rhywogaeth o wyfyn yn unig. Mae hyn i gyd yn helpu i gadw byd natur mewn cydbwysedd.

Y tu hwnt i'w rôl ecolegol, mae gwyfynod yn ddangosyddion gwerthfawr o gyflwr yr amgylchedd. Oherwydd eu bod yn sensitif i newidiadau mewn cynefinoedd, llygredd a hinsawdd, mae gwyddonwyr yn arsylwi poblogaethau o wyfynod er mwyn monitro cyflwr ein hecosystemau. Gall newidiadau mewn poblogaethau o wyfynod fod yn arwyddion rhybudd cynnar, gan helpu ymchwilwyr i ddeall ac ymateb i golledion natur ehangach.



Gwalch-wyfn hyllys © Derek Moore

Sut mae ein gwyfynod ni'n gwneud?

Yn anffodus, fel y rhan fwyaf o bryfed, mae gwyfynod yn wynebu anawsterau. Mae degawdau o newid yn y ffordd rydyn ni'n rheoli ein tir wedi gadael ei ôl.

Cyfoeth o dystiolaeth

Mae'n gallu bod yn anodd profi newidiadau hirdymor mewn niferoedd pryfed, gan nad yw'r rhan fwyaf o bryfed wedi cael eu monitro'n fanwl dros gyfnodau sylweddol o amser. Mae gwyfynod yn eithriad prin. Mae hanes maith y DU o gofnodi gwyfynod yn cynnwys Arolwg Pryfed Rothamsted. Wedi cael ei gynnal ers 1964, dyma'r data hirdymor mwyaf cynhwysfawr a safonol am bryfed yn y byd!

Yn anffodus, dydi'r canfyddiadau ddim yn newyddion da. Yn 2021, cyhoeddodd Butterfly Conservation, Rothamsted Research ac UKCEH The State of Britain's Larger Moths 2021. Datgelodd yr adroddiad yma fod cyfanswm y gwyfynod mwy oedd wedi'u cofnodi mewn trapiau golau wedi gostwng 33% rhwng 1968 a 2017.

Edrychodd yr adroddiad hefyd ar ffawd 427 o rywogaethau unigol o wyfynod mwy. Dangosodd fod 41% o'r gwyfynod a astudiwyd wedi dirywio'n sylweddol o ran niferoedd, a dim ond 10% sydd wedi cynyddu'n sylweddol o ran niferoedd.

Ar y llaw arall, dangosodd dosbarthiad y gwyfynod duedd gyferbyniol. O blith 511 o rywogaethau a astudiwyd, roedd 37% o wyfynod wedi cynyddu eu dosbarthiad, a 32% wedi lleihau o ran dosbarthiad. Felly mae llai o wyfynod, ond mae posib dod o hyd i lawer o'r rhai sy'n weddill dros ardal fwy. Mae newid hinsawdd yn chwarae rhan fawr yn hyn, gan arwain at lawer o wyfynod yn lledaenu i'r gogledd. Mae hefyd wedi galluogi rhywogaethau newydd i sefydlu yn y DU o Ewrop.

Effeithiau trefol

Edrychodd astudiaeth ddiweddar ar effeithiau trefoli ar wenynd, gwyfynod a phryfed hofran. Daeth o hyd i lai o rywogaethau wrth symud o gyrion ardal drefol i ganol dinas. Yn ddiddorol, awgrymodd yr astudiaeth fod gwyfynod a phryfed hofran yn fwy sensitif i drefoli na gwenyn. Ond mae astudiaethau eraill wedi dangos bod posib i sut rydyn ni'n garddio wneud gwahaniaeth.

Drwy dyfu mwy o goed a llwyni ar gyfer cysgod a phlanhigion bwyd ar gyfer lindys gwyfynod yn ein gerddi, fe allwn ni helpu i roi hwb iddyn nhw.

Mae un peth yn glir, mae angen ein help ni ar wyfynod!


Mae amaethyddiaeth ddwysach, trefoli, newid hinsawdd a llygredd o gemegau a golau i gyd yn gysylltiedig ag effeithiau ar wyfynod.



Bwydo'r lindysyn, achub y gwyfyn

Rydyn ni'n gwybod bod gwyfynod yn bwysig a'u bod nhw'n wynebu anawsterau, ond sut gallwn ni helpu? Mae darparu ffynonellau o neithdar i'r oedolion yn ddechrau da, ond er mwyn rhoi hwb gwirioneddol i niferoedd y gwyfynod, mae angen i ni ofalu am y lindys!

Mae gan lindys un dasg i'w chyflawni, sef bwyta cymaint ag y maen nhw'n gallu – fel y dangoswyd yn stori enwog Eric Carle, The Very Hungry Caterpillar. Gan nad ydi pob pryf bron yn gallu tyfu ar ôl datblygu i fod yn oedolyn, mae eu maint yn cael ei bennu gan ba mor fawr ydyn nhw yn ystod eu cyfnod larfal olaf. Mae angen iddyn nhw hefyd sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o egni wedi'i storio i drawsnewid eu corff yn llwyr. I ychwanegu at y pwysau, nid yw rhai gwyfynod sy'n oedolion yn bwydo o gwbl. Maen nhw'n gwbl ddibynnol ar egni sydd wedi'i storio yn ystod eu hieuencid!



Lindysyn ydi'r enw sy'n cael ei roi i gyfnod larfal gwyfyn neu löyn byw. Dyma'r ail gam mewn cylch bywyd pedwar cam:

1 Wy 2 Larfa 3 Chwiler 4 Oedolyn

Mae llawer o lindys yn ffysi o ran beth maen nhw'n ei fwyta ac yn bwydo ar nifer bach o blanhigion penodol yn unig, neu ddim ond un rhywogaeth hyd yn oed.

Mae llawer o lindys yn bwydo yn ystod y nos i osgoi adar yn hela - ond mae rhai ystlumod yn arbenigwyr ar eu pigo oddi ar blanhigion.

Yr enw ar faw lindys ydi llwch. Mae rhai lindys yn fflicio'r llwch oddi ar y ddeilen maen nhw arni, rhag tynnu sylw ysglyfaethwyr.

Mae rhai lindys mor fach fel eu bod nhw'n byw tu mewn i'r dail maen nhw'n eu bwyta. Yr enw ar y rhain ydi lindys y dail.

Gall rhai lindys, fel lindys y cathwyfynod, chwistrellu asid fformig i gadw ysglyfaethwyr draw.

Mae gan lawer o lindys guddliw ardderchog, gan edrych fel brigau, rhisgl, cen neu ddarnau o flodyn neu ddail.

Mae gan lindys nifer o dros-goesau hefyd - tyfiannau cigog sy'n gweithredu fel coesau ychwanegol.

Mae gan lindys chwe choes real, fel gwyfyn sy'n oedolyn.

Mae rhai lindys yn lliw llachar i rybuddio ysglyfaethwyr eu bod yn wenwynig.

Pan maen nhw'n teimlo dan fygythiad, mae lindys y gwalch-wyfyfyn helyglus yn tynnu eu pen yn ôl ac yn pwffian eu corff i fyny i edrych fel neidr.



Mae angen planhigion sy'n llawn neithdar ar wyfynod sy'n oedolion drwy gydol y flwyddyn. Drwy ddewis y planhigion cywir ar gyfer pob tymor, gall eich gardd gynnig ffynhonnell barhaus o fwyd.

I denu gwyfynod yn hedfan yn ystod y nos:

Gwanwyn: swllt y dyn tlawd a chroes yr hwyr

Haf: planhigyn tybaco, melyn yr hwyr, gwyddfid a jasmin

Hydref: gludlys nos-flodeuol a gludlys gwyn

Garddio ar gyfer gwyfynod

Mae creu gardd sy'n cefnogi gwyfynod yn golygu meddwl am yr oedolion sy'n hedfan a'u lindys. Gydag ambell ddewis meddylgar, gall eich gofod awyr agored ddod yn hafan i'r pryfed hanfodol yma - gan roi hwb i fioamrywiaeth a dod â'ch gardd yn fyw ar ôl iddi nosi.



I denu gwyfynod yn hedfan yn ystod y dydd:

Gwanwyn: glesyn y coed, sgorpionlllys a briallu

Haf: lafant, clafrllys a phenrhudd

Hydref/gaeaf: eiddew a blodyn Mihangel

Dechrau gyda strwythur

Os oes gennych chi le ar gael, mae coed a gwrychoedd brodorol yn cynnig cysgod, bwyd a safleoedd magu i wyfynod a'u larfa. Mae rhywogaethau fel drain gwynion, bedw a chyll yn gallu bod yn gartref i amrywiaeth eang o lindys, ac mae gwrychoedd hefyd yn creu microhinsoddau sy'n gwarchod gwyfynod rhag y gwynt ac ysglyfaethwyr. Os ydi gofod yn brin, dewiswch ffurfiau llai wedi'u tyfu, fel helygen wylofus fechan Kilmarnock neu lwyni fel ffiwsia neu yswydd.

Cinio i'r cnowyr

Yn ogystal â phlanhigion coediog, mae ambell ffefryn arall yn yr ardd yn cynnig cinio blasus i lindys llwglyd hefyd. Tyfchw hopys neu wyddfid i fyny pergola, a dod o hyd i lecyn ar gyfer bysedd y cŵn, pannog, cyfardwf, penrhudd, briwydd a phenigan barfog. Mae ychydig o dyllau mewn dail yn arwyddion o lwyddiant, nid methiant!

Gadael y sbwriel dail

Fe ddylech chi wrthsefyll yr ysfa i dcluso gormod! Mae sbwriel dail a phridd heb i neb darfu arno'n darparu lle diogel i lindysyn droi'n chwiler a threulio'r gaeaf. Mae'r cynefinoedd cudd yma'n hanfodol ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wyfynod.

Pylu'r goleuadau

Mae goleuadau artiffisial yn gallu drysu a blino gwyfynod sy'n hedfan yn ystod y nos, gan amharu ar eu bwydo a'u magu. Defnyddiwch synwryddion symudiad, bylbiau lliw cynnes a chyfeirio unrhyw olau tuag at y llawr i leihau'r effaith. Gwell fyth, diffoddwch bob golau diangen yn llwyr!



Sgorpionlllys
© Neil Wyatt

Gwyfynod yn yr ardd

Os ydi eich gardd chi'n wynebu ymyl glaswellt, gofynnwch i'ch cyngor ystyried gohirio torri'r gwair tan ddiwedd y gaeaf i roi cyfle i lindys ddatblygu.

Does dim angen cynhyrfu os gwelwch chi lindys ar eich planhigion! Mae'r rhan fwyaf o blanhigion sydd wedi sefydlu'n dda'n gallu goddef dail wedi'u cnoi.

Cofiwch beidio â defnyddio unrhyw chwistrellau na chemegau yn eich gardd lindys.

Mae glaswelltau brodorol yn bwydo llawer o lindys
Lindysyn yfwr gwlith

Mae marddanadl gwynion yn cynnal llawer o wyfynod
Gem pres gloyw

Mae lindys yn bwydo ar rywogaethau o bannos
Lindysyn gwyfyn pannog

Mae lindys yma'n bwydo ar ffwsias
Lindysyn gwalch-wyfyn helyglys

Mae gwyfynod mintys wrth eu bodd hefo penrhudd yn oystal â mintys
Gwyfyn mintys

Roedd y rhywogaeth yma'n cael ei hadnabod fel 'ci hop' ar un adeg
Lindysyn siobyn gwelw

Gyda llwyni llai, ceisiwch blannu sawl un i'w gwneud nhw'n fwy deniadol i wyfynod benywaidd sydd eisiau dodwy eu hwyau.


Gwneud bar neithdar ar gyfer y nos

Sut i wyllo gwyfynod


Rhaffau Gwin

Bydd angen:

- potel o win coch rhad
- lkg o siwgr
- sosban
- rhyw un metr o hyd o ddefnydd



1 Cymysgwch win a siwgr gyda'i gilydd... cynheswch nes bod y siwgr wedi toddi.



2 Rhowch ddarnau o ddefnydd i socian yn yr hylif wedi oeri.

3 Ewch ati i hongian y sribedi o ddefnydd dros ganghennau coed.


4 Gadewch nhw am ddwy awr ac edrych arnyn nhw ar ôl iddi dywyllu.



Trap Golau

Bydd angen:

- cynfas wen
- lein ddillad
- pegiau
- lamp lachar neu fflachlampau



1 Pegiwrch eich cynfas ar lein ddillad neu dros gangen.

2 Diffoddwch unrhyw oleuadau cyfagos.




3 Goleuwch eich fflachlamp / golau ar y gynfas... ac aros yn amyneddgar.

4 Ewch ati i adnabod y gwyfynod sy'n casglu.

Illustration: Corinne Welch © Copyright Royal Society of Wildlife Trusts 2016

Bydd angen

- Cynhwysydd neu bot mawr (30cm o led o leiaf)
- Compost heb fawn
- Can dyfrio
- Tomwellt neu sbwriel dail (dewisol)
- Cymysgedd o blanhigion llawn neithdar sy'n bersawrus yn y nos



1 Dewiswch bot mawr sydd â rhywfaint o dyllau draenio.



2 Defnyddiwch gompst heb fawn i lenwi eich cynhwysydd.



Llenwch hyd at tua 5cm o dan yr ymyl.

3 Trefnwch eich planhigion o ddewis fel bod y mathau talach yn y cefn neu'r canol. Cymysgwch fflodau'r gwanwyn, yr haf a'r hydref i wneud yn siŵr bod genych chi fwyd i wyfynod drwy gydol y tymhorau.



4 Rhowch ddigon o ddŵr i'ch planhigion ar ôl plannu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r compost yn laith, yn enwedig yn ystod cyfnodau sych.



Chwistrelliad mân yd'r nod.

5 Gwasgarnwch ychydig o sbwriel dail neu domwellt o amgylch gwaelod y cynhwysydd.

Yn cynnig cysgod i lindys a gwyfynod sy'n chwileru.

6 Gosodwch eich bar neithdar mewn llecyn cysgodal oddi wrth oleuadau artiffisial llachar.



Os ydych chi'n defnyddio goluedau awyr agored, dewiswch fyllbiau llwyr cynnes a'u diffodd pan nad oes eu hangen nhw.




Darlun: Corinne Welch © Hawlfraint Royal Society of Wildlife Trusts 2026

Adnabod gwyfynod

MAI-GORFFENNAF 🌙  Hyd yr adenydd: 28-33mm ☐ Gwalch-wyfyn helyglys	MAI-GORFFENNAF 🌙  Hyd yr adenydd: 30-46mm ☐ Gwalch-wyfyn poplys	MAI-MEDI YN BENNAF 🌞  Hyd yr adenydd: 20-24mm ☐ Gwalch-wyfyn hofrol	MEHEFIN-MEDI 🌙  Hyd yr adenydd: 16-19mm ☐ Gem pres gloyw	MAI-GORFFENNAF 🌞  Hyd yr adenydd: 17-23mm ☐ Teigr y bentelen
MAI-AWST 🌙  Hyd yr adenydd: 7-9mm ☐ Gwyfyn mintys	DRŴ'R FLWYDDYN 🌙  Hyd yr adenydd: 9-13mm ☐ Plu-wyfyn brown	EBRILL-HYDREF 🌙  Hyd yr adenydd: 14-21mm ☐ Melyn y drain	GORFFENNAF-MEDI 🌙  Hyd yr adenydd: 28-33mm ☐ Teigr Dyfnaint	MAI-GORFFENNAF 🌞  Hyd yr adenydd: 15-19mm ☐ Fflug-bicwren dorchog

🌞 Hedfan yn ystod y dydd 🌙 Hedfan yn ystod y nos 🌞 Hedfan yn ystod y nos a'r dydd

Adnabod lindys

MEHEFIN-MEDI  Ar ffwisiais a helgysiau yn bennaf ☐ Gwalch-wyfyn helyglys	GORFFENNAF-MEDI  Ar gyn neu yswydd yn aml ☐ Gwalch-wyfyn yswydd	MEHEFIN-MEDI  Ar boplys a helgys ☐ Catlwyfyn	MAI-GORFFENNAF  Ar bannog feilen yn bennaf ☐ Pannog	GORFFENNAF-MEDI  Ar lysiau'r gingroen yn bennaf ☐ Teigr y bentelen
MAI-MEDI  Ar amrywiaeth eang o blanhigion ☐ Siobyn	AWST-MEHEFIN  Ar laswelltau ☐ Yfwr Gwllith	GORFFENNAF-MEDI  Ar amrywiaeth eang o blanhigion ☐ Gwyfyn brith (mae'r lliw yn amrywio: yn aml yn llwyd, brown neu wyrdd)	GORFFENNAF-MEDI  Ar amrywiaeth eang o blanhigion ☐ Siobyn gwelw	GORFFENNAF-HYDREF  Ar goed bedw, cyll, derv a helgys yn bennaf ☐ Blaen brigyn

Amdanom ni

Creodd yr Ymddiriedolaethau Natur a'r RHS Gwylt Am Erddi i ddathlu garddio er budd bywyd gwylt ac i annog pobl i weithredu dros fyd natur. Dros y 50 mlynedd diwethaf, rydyn ni wedi gweld dirywiad mewn dwy ran o dair o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid y DU. Mae llawer o'r ymwelwyr cyffredin â'n gerddi ni - gan gynnwys draenogod, adar y to a drudwy - yn wynebu bygythiad cynyddol, ond gyda'i gilydd gall gerddi wneud gwahaniaeth anhygoel. I ddarganfod mwy am arddio er budd bywyd gwylt ac am fwy o adnoddau, ewch i'n gwefan ni. Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr misol ni i dderbyn diweddariadau a syniadau ar bopeth sy'n ymwneud â Gwylt Am Erddi.



Yr Ymddiriedolaethau Natur

Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur genhadaeth i adfer traean o dir a môr y DU ar gyfer byd natur erbyn 2030. Rydyn ni'n credu y dylai pawb, ym mhob man, gael mynediad at fyd natur a'r llawenydd a'r manteision iechyd mae'n eu cynnig. Dim ots ble rydych chi yn y DU, mae Ymddiriedolaeth Natur yn eich ardal chi sy'n grymuso pobl i weithredu dros fyd natur a sefyll dros fywyd gwylt a llefydd gwylt. Mae pob Ymddiriedolaeth Natur yn elusen annibynnol sydd wedi'i ffurfio gan bobl yn dod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwylt, yr hinsawdd a chenedlaethau'r dyfodol. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n gofalu am 2,600 o warchodfeydd natur amrywiol a hardd. Gallwch ein helpu ni i ddod â bywyd gwylt yn ôl yn helaeth drwy ddod yn aelod o'ch Ymddiriedolaeth Natur heddiw.

E-bost: enquiry@wildlifetrusts.org

Gwefan: wildlifetrusts.org

 @The Wildlife Trusts

 /wildlifetrusts

 thewildlifetrusts

 @wildlifetrusts

Elusen Gofrestredig Rhif 207238

The Royal Horticultural Society

Ni yw elusen garddio'r DU, yn helpu pobl a phlanhigion i dyfu. Ein cenhadaeth ni yw bod yno ar siwrnai gydol oes pobl gyda garddio - i greu hapusrwydd, iechyd, cymunedau cryfach a byd naturiol ffyniannus. Gyda 220 o flynyddoedd o brofiad, rydyn ni'n cefnogi garddwyr o bob oed gyda chynghor arbenigol, prosiectau cymunedol ac ysgolion, ymchwil wyddonol, cymwysterau proffesiynol, ein pum Gardd RHS, a digwyddiadau gan gynnwys Sioe Flodau eiconig Chelsea yr RHS.

E-bost: membership@rhs.org.uk

Gwefan: rhs.org.uk

 @Royal Horticultural Society

 /rhshome

 the_rhs

 @the_rhs

 @rhshome

Elusen Gofrestredig Rhif 222879/SC038262

**Ewch ati i addo helpu gwyfynod
yn wildaboutgardens.org.uk**

Gwyfyn mintys © Vaughn Matthews

Darluniau gan Corinne Welch

